# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

# BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, LLANELIAN 7.30 y.h. NOS LUN 3ydd CHWEFROR 2025.**

## 1. CROESO

Croesawyd y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod

## 2. YN BRESENNOL

Y Cynghorion John EVANS, Irwedd GRIFFITHS, Glena HUMPHREY, Gwenda DAVIES Goronwy R. WILLIAMS, Bryn JONES, Gethin OWEN, D. Gwyn JONES, Hefin WILLIAMS, Cynghorydd y Sir - Ifor G. LLOYD Clerc – Mel JONES

## 3. YMDDIHEURIADAU

Dim - pawb yn bresennol

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Roedd datganiad o ddiddordeb mewn materion cynllunio gan y Cynghorion Hefin WILLIAMS, Glena HUMPHREY a D. Gwyn JONES

## 5. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed Ionawr 2025 (Cynnig – Cynghorydd D. Gwyn JONES ac eilwyd gan y Cynghorydd Hefin WILLIAMS)

### 6. MATERION YN CODI

Roedd dim materion yn codi.

### 7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod ddod i ddod i ben 20fed Ionawr 2025.

**Dod i ben 20fed Ionawr 2025**

| | |
|---|---|
| **Cyfrif Cymunedol** | = £5,882.33 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian i Mewn | = DIM |
| Arian Allan | = £570.12 (Cyflog y Clerc) |
| | = £142.40 (HMRC cyflog y Clerc) |
| | = £1,500 (Grant Mynwent Betws) |
| | =£59.40 (Aston Hughes -Gwaith cyflog) |
| | = £135.00 (Rhent Pafiliwn Betws yn Rhos)) |
| | =£100.00 (Rhent Neuadd Llanelian) |
| | = £5.00 (Costau Banc) |
| | = £86.28 (Anfoneb BT) |
| | = £218.87 (Cinio Henoed Betws yn Rhos) |
| | = £127.11 (Anrhegion Nadolig Plant Betws) |
| **Cyfrif Cymunedol** | = £2,938.15 (Cludwyd Ymlaen) |
| **Cyfrif Busnes** | = £4,052.66 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian Allan | = DIM |
| Arian i Mewn | = DIM |
| **Cyfrif Busnes** | = £4,052.66 (Cludwyd Ymlaen) |
| **Cyfanswm** | **= £6,990.81** |

Nododd yr aelodau y sefyllfa ariannol a'r adroddiad banc fel a restir uwchben.

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau/ceisiadau a restrir isod angen ei talu:

£86.28 BT – Anfoneb misol WiFi Betws a Llanelian

Taliad o £90.00 i Aloma Wheway am brynnu dwr i henoed Betws yn Rhos yn dilyn toriad dwr a effeithiodd yr ardal. Roedd hyn yn argyfwng ac roedd y Cadeirydd, Cynghorydd John Evans ar Clerc wedi cytuno talu am y dwr.

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfonebau yma.

## 8. GOHEBIAETH

**Derbynwyd**

1. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc

**Anfonwyd**

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
2. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 9. GRANTIAU

### a. Ceisiadau i'r Cyngor

Llythyr wedi cael ei dderbyn gan Theatr Bara Caws yn gofyn yn garedig I'r Cyngor ganiatau cymorthdal I'r cwmni amy y flwyddyn ariannol bresennol. Wedi trafod y cais y penderfyniad oedd na fyddai'r Cyngor yn medru rhoid cymorthdal. Mae y praesept am y flwyddyn nesaf wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ac nid oedd arain yn y cyfrifau banc i gefnogi taliad. Mae y Cyngor hefyd yn awyddus cefnogi materion lleol. Y Clerc i ysgrifennu i Theatr Bara Caws.

b. **Ceisiadau gan y Cyngor**

Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

Fydd yn gofyn rhoid cais i mewn yn y dyfodol i atgyweiro cae chwarae Betws yn Rhos.

10. **CYNLLUNIO - [http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer](http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer)**

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/52242** **Ymgeisydd: Rhys and Rosie Jones**

Cynllun: Estyniad deulawr i'r ochr ac estyniad unllawr i'r cefn, ynghyd â rhai addasiadau mewnol.

Safle: Pencraig Pencraig Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT

Roedd Cynghorydd D. Gwyn Jones wedi datgan diddordeb ac fe adawodd yr ystafell cyn trafod y mater.

Nodwyd fod cais blaenorol wedi cael ei wrthod gan yr Adran Gynllunio. Roedd dogfennau y cais cynllunio wedi cael ei gweld. Wedi trafod y mater roedd gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad i'r cais.Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Gynllunio.

Ar diwedd y trafodaeth ymunodd y Cynghorydd Gwyn Jones y cyfarfod.

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/52273** **Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt**

Cynllun: Llwybr fferm at siediau amaethyddol a chafn gwair (Cymeradwyaeth Amaethyddol Ymlaen Llaw)

Safle: Aelwyd Uchaf Peacful Mountain Farm Cil Llidart Road Betws yn Rhos Conwy LL22 8AG

Roedd y papurau cynllunio wedi ei gweld. Roedd cynllun blaenorol am adeiladu ty ar y safle ac hefyd am traciau fferm (0/52202) wedi cael ei wrthod gan yr Adran Gynllunio.

Roedd teimladau y Cyngor eto yn debyg i'r cais 0/52202.

Roedd pryderion fuasai yn rhoi blaenoriaeth perygl i ddatblygiadau yn aradaloedd gwledig mewn safle gwyrdd. Roedd pryder fuasai'r cynllun i'w weld yn glir ac allan o'i le. Roedd tebygrwydd fuasai traffig ychwanegol ar ffordd gul ac ymharu ar y llwybr hanesyddol.

Nodwyd fod yr adeiadau yn cael ei defnyddio heb traciau a fedrith hyn ddal i gario ymlaen.

Roedd cwestiwn am cynaliadwyedd y tymor hir y cynllun ac hefyd fod y cynllun yn erbyn nodyn TA 24.

Y canlyniad oedd fuasai'r ymgais yn cael ei wrthwynebu.

Roedd y Cyngor yn fodlon trafod yr ymgais eto os oedd dogfennau ychwanegol yn cael ei cyflwyno i'r Adran Gynllunio.

Nodwyd fod yr enw Peaceful Farm ar yr ymgais. Roedd dim fferm gyda'r enw yna. Oes proses i ddilyn i newid enw fferm?

Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Gynllunio hefo'r penderfyniad ac i ofyn am y newid enw.

**Cyfeirnod: 0/52229** **Ymgeisydd: Mr Hefin Williams**

Cynllun: Pit slyri newydd i gefnogi stoc gyfredol y fferm yn unol â'r deddfwriaethau diweddaraf

Safle: Caeau Bedw Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EE

Gan for y cais yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio roedd dim trafodaeth am y cynllun ac nid oedd rhaid i'r Cynghorydd Hefin Williams oedd wedi datgan diddordeb adael yr ystafell.

**Cyfeirnod: 0/52202** **Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt**

Cynllun: Traciau fferm, ar gyfer siediau amaethyddol, cytiau moch a phorthwr gwair (Cymeradwyaeth Amaethyddol Ymlaen Llaw)

Safle: Aelwyd Uchaf Peacful Mountain Farm Betws yn Rhos Conwy LL22 8AG

Y CAIS WEDI CAEL EI WRTHOD GAN YR ADRAN GYNLLUNIO

**Cyfeirnod: 0/52175** **Ymgeisydd: Mr Berwyn Jones**

Cynllun: Caniatâd amlinellol i godi annedd ar gyfer menter wledig newydd ar dir ym Mryn Ffanigl Ganol, Abergele

Safle: Bryn Ffanigl Ganol Bryn Ffanigl Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8NF

Gan for y cais yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio roedd dim trafodaeth am y cynllun ac nid oedd rhaid i'r Cynghorydd Glena HUMPHREY oedd wedi datgan diddordeb adael yr ystafell.

**Cyfeirnod: 0/52145** **Ymgeisydd: Mr & Mrs Davies**

Cynllun: Lagwn Slyri Amaethyddol Arfaethedig

Safle: Peniarth Fawr Abergele Road Betws Yn Rhos LL22 8AE

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

**Cyfeirnod: 0/52118** **Ymgeisydd: Mr Dewi Jones**

Cynllun: Mast monitro meteorolegol 80m dros dro gydag amddiffyniad rhag mellt (gyda'r uchder cyffredinol yn ddim uwch na 80.4m) am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad y gweithrediad cyntaf, i gofnodi data ar yr adnodd gwynt sydd ar gael ar y safle.

Safle: Tir Pori Amaethyddol i'r De o Fynydd Llanelian

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

**Cyfeirnod: 0/52094** **Ymgeisydd: - Pwyllgor Chwaraeon**

Cynllun: Creu llefydd parcio newydd (ddim wedi dechrau) a gosod cynwysyddion storio (wedi'u gosod)

Safle: Sports Pavilion Dolwen Road Betws Yn Rhos LL22 8AW

WEDI CAEL EI GYMERADWYO GAN YR ADRAN GYNLLUNIO

## 11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Mae adroddiad Archwiliad Cymru yn cael ei ddisgwyl. Mae hyn yn debyg i ambell o Gyngorhau Cymunedau eraill.

## 12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Rhoddodd Cynghorydd Ifor Lloyd ddiweddariad fod grant gan y llywodraeth ar gael i ddod a fibr llawn i gartrefi yn ardal Betws yn Rhos a Dolwen. Mae 70% wedi arwyddo i'r grant ond mae rhaid trio cael mwy o ddiddordeb. Gofyn i godi gwybodaeth hefo 'Facebook' a llafar yn lleol. Mae y gwybodaeth ar wefan y Cyngor Cymunedol.

Roedd Cynghorydd Ifor Lloyd eisio rhoid pleidlais o ddiolch i bawb yn y gymuned a fydd yn helpu allan yn y toriad dwr yn ddiweddar.Roedd problemau hefo Dwr Cymru ddim yn barod i rhannu manylion pobol sydd yn agored i niwed. Mae hyn wedi cael ei godi ac ei drafod mewn cyfarfodydd yn y Cyngor Sir.

## 13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

### a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.

Mae y Clerc yn cyfarfod Mr David Dudley – Arolygydd Caeau Chwaraeon y Cyngor Sir – yn Cae Chwarae Betws yn Rhos dydd Iau 6ed Chwefror 2025.

Mae y cynllun ar ddwy amcangyfrif gan G.L. Jones a Creative Play wedi cael ei rhanu hefo Mr Dudley. Nid oes gan Cyngor Conwy y cyllid I wneud y gwaith.

Mae Mr Dudley yn fodlon cynorthwyo y Clerc i gael offer addas ac i gael grantiau at y gost.

Wedi cael ateb y Clerc i gysylltu hefo CVSC ynglyn a grantiau ar gael.

b. **Diffibrilwyr.**

Y gwaith i leoli diffibrilwr newydd yn safle y bont newydd yn Dawn heb ei gwbwlhau. Mae y Clerc wedi gwneud ymholiadau ynglyn a diffibrilwr hefo pwer solar. Mae ymholiadau wedi ei gwneud gyda Tomos Hughes (Ambiwlans Cymru) a hefyd cwmniau Diffibrilwr. Mae ciosg pwer solar ar gael ac mae'r gost yn tua £3,200 heb TAW. Mae cost y diffibrilwr yn £700 - £900 yn ychwanegol. Un syniad yw i gael ciosg arferol ond fuasai rhaid ymweld pob wythnos rhag ofn iddo rhewi.Hefyd fuasai rhaid symud y diffibrilwr os oedd tywydd trwm o rhew ag eira. Wedi cael trafodaeth roedd teimlad fuasai yn beryglus cael ciosg heb drydan. Wedi cymeryd sylw o'r gost y penderfyniad yn anffodus oedd na fydd diffibrilwr yn cael ei osod yn ardal Dawn.

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau/Meinciau Ffordd Abergele**

Mae Hilda Gibbs yn mynd i edrych ar ol y potiau blodau a'r meinciau yn symud ymlaen.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos/Llanelian**

Roedd Cynghorydd John Evans wedi diweddaru eisioes fod Pwyllgor Eglwys Betws yn Rhos yn edrych at atgyweiro adeilad tu allan i'r eglwys fel toiled.Fydd diweddariad ar gael pan fydd cynnydd yn y planniau. Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi Pwyllgor yr Eglwys.

Maer Clerc wedi trafod y toiliedau yn Llanelian hefo Gary Williams -Rheolwr Cyfleusterau y Cyngor - ac fydd yn bosib i'r Cyngor Cymundeol gymeryd y cyflusterau drosodd yn symud ymlaen. Mae costau rhedeg y toiledau yn y cais praesept.
Mae y Cyngor Sir eisio i'r Cyngor Cymunedol cadarnhau ein bod yn fodlon i gymeryd rhedeg y toiledau drosodd. Wedi trafodaeth y Clerc i ysgrifennu i Gary Williams yn y Cyngor Sir i cadarnhau fod y Cyngor yn fodlon rhedeg y toiledau.

f. **Materion arall**

Mae’r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a’r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y ‘gazebo’ dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632. Mae asesiad fod y gwaith yn ddi-frys.

Ynglyn a’r mater gododd Cynghorydd Irwedd Griffiths ar y15fed Gorffennaf am dro cul ar y ffordd rhwng Nant y Cohl a Bryn Derwen mae y gwaith yn dal i ddisgwyl.

Ynglyn a Safle Bws gorchuddiedig yn Betws yn Rhos. Mae y Clerc wedi cael ateb gan y Cyngor Sir. Nid oes y cyllid gan y Cyngrg Sir i osod safle bws yn y pentref. Mae y costau tua £7,000 i brynu a gosod y safle.Wedi trafoid y mater y penderfyniad oedd fod y gost yn waharddol ac fydd y mater ddim yn cael ei symud ymlaen.

Y Clerc wedi ysgrifennu i’r Cyngor Sir ynglyn coeden yn tyfu ar wal yn agos i’r hen doiledau/flats LLais Afon yn Betws yn Rhos. Mae’r Cyngor wedi ymateb nad ydynt yn perchnogi y tir. Mae y Cyngor Sir wedi gwneud ymholiadau ac wedi darganfod y perchenog. Mae llythyr wedi cael ei yrru i’r perchenog.

Ynglyn a coeden yn tyfu yn wyllt i’r ffordd yn rhif 2 neu 3 Ffordd Dolwen, Betws yn Rhos. Yn dilyn archwiliad, nid yw y Cyngor Sir yn teimlo bod angen unrhyw gamau ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor Sir yn parhau i fonitro'r lleoliad fel rhan o'u harchwiliadau arferol.

Mae’r cais cynllunio ynglyn a safle parcio yn Pafiliwn Chwaraeon wedi cael ei gymeradwyo. Os fydd rhaid symud y goeden mwnci o’r safle fydd Cynghorydd John Evans yn diweddaru mewn amser.

Mae goleuadau nadolig yn Betws yn Rhos wedi cael ei tynnu i lawr gan y Cyngor Sir. gan y Cymuned. Mae Cynghorydd Bryn Jones yn cadw nhw yn ddiogel.

Ynglyn cwynion wedi cael ei derbyn am cyflwr Ffordd Dolwen o Dolgau i Dolwen ac eisio lori i ysgubo’r ffordd. Mae y Cyngor Sir wedi cadarnhau fyddent yn gwneud y gwaith.

Mae cwyn wedi cael ei dderbyn fod tir ar ochr y ffordd B5381 rhwng Pen Refail a Hunters Hamlet wedi disgyn i'r lon. Y Clerc i ysgrifennu i'r Cyngor Sir

Mae Cynghorion wedi derbyn cwynion for tir yn y safle isod wedi cael newid defnydd a yn bosib eiso cynllun i newid ei defnydd.

1. Coed Ty Brith, Ffordd Abergele, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio fel Parc Cwn a Tepees yn y safle
2. Tir ger Nant Uchaf, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio i gadw peiriantau trwm.

Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Gynllunio.

## 14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Mae y ffurflen gais wedi cael ei gyrru i'r Cyngor Sir cyn y dyddiad cau o 17/1/2025

Y cais praesept oedd am £18,000 hefo £2,387.76 yn cael ei ddefnyddio o cyfrif Banc y Cyngor Cymunedol.

## 15. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

## 16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.

Cafodd agoriad swyddogol y Ganolfan Gymunedol prynhawn dydd Sadwrn 18/1/25. Roedd yr agoriad wedi cael ei gefnogi gan lawer o'r cymuned ac roedd yn prynhawn llwyddianus

Mae ateb wedi ei gael gan BT am yr oedi mewn gosod WiFi yn y neuadd. Fe trafodwyd yr ateb oedd yn llawn gwybodaeth technegol . Fe benderfynwyd i'r Clerc edrych am iawndal gan BT.

**17. Y GADLAS**

Fydd erthygl yn cael ei ysgrifennu am agoriad swyddogol Neuadd Gymunedol Llanelian.

**18. UNRHYW FATER ARALL**

Diweddariad gan y Clerc nag oedd diddordeb eto ar ol yr hysbyseb ar y wefan am swydd wag Cynghorydd ar y Cyngor Cymuned. Mae Cynghorydd Glena Humphrey wedi cael cysylltiad hefo unigolyn yn dangos diddordeb. Mar yr unigolyn yn mynd i cyswllt hefo'r Clerc

Diweddaraiad gan Cynghorydd Gwyn Jones ei fod wedi cael cais gan Cymdeithas Cymuned Llanelian am grant gan y Parc Solar am fleindiau i'r ffenestri a drysau yn y Neuadd Gymunedol ac hefyd gosod patio newydd tua allan. Mae ambell amcyngyfrif wedi cael ei dderbyn. Mae y cost o gwmpas £8,500. Roedd y Cyngor yn cefnogi'r cais.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.05yh.

CADEIRYDD ………………………………………………… John EVANS

CLERC………………………………………………………… Mel Jones

DYDDIAD: 3ydd Mawrth 2025